COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD O BELL - DROS MICROSOFT TEAMS DDYDD LLUN, 23 HYDREF 2023 AM 10:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | F D Bletsoe | P Davies | RM Granville |
| S J Griffiths | M L Hughes | M Jones | RL Penhale-Thomas |
| G Walter | AJ Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

T Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Carys Lord | Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Kate Pask | Rheolwr Perfformiad Corfforaethol |
| Jessica McLellan | Swyddog Craffu |
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

Aelodau Cabinet:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Huw David | Arweinydd y Cyngor |
| Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd |
| Cynghorydd Hywel Williams | Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a'r Gyfraith |

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Jon-Paul Blundell | Aelod Cabinet Addysg |
| Cynghorydd John Spanswick | Aelod Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd |
| Cynghorydd Rhys Goode | Aelod Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio |
| Cynghorydd Neelo Farr | Aelod Cabinet dros Lesiant a Diogelwch Cymunedol |

Datganiadau o Ddiddordeb

Dim.

**89. Cymeradwyaeth Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 3 a 24 Gorffennaf 2023 fel rhai cywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Hydref 2023 |

**90. Monitro Cyllideb 2023-24 - Chwarter 2 Rhagolwg Refeniw**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion canlynol:<br><br>1. Y Bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu llythyr i Weinidogion Cymru dros y Newid yn yr Hinsawdd ac Addysg a'r Gymraeg, yn mynegi eu pryder mewn perthynas ag oedi cyhoeddiad canlyniad adolygiad i Gludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol, a gofyn i'r broses gael ei chyflymu, a fyddai'n galluogi'r Cyngor i ystyried opsiynau anodd, ond angenrheidiol, ynglŷn â sefyllfa heriol o ran y gyllideb Addysg ac Ysgolion.<br><br>2. Bod gohebiaeth yn cael ei rhannu'n gyhoeddus, gan ddangos yn glir y materion cymhleth sy'n cyfrannu at y pwysau costau yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn dangos, er enghraifft, cost gwasanaethau y pen. |

| | |
|---|---|
| | a gofynnodd y Pwyllgor:<br><br>3. Am ddiweddariad ysgrifenedig ynghylch nod a diben y Cynllun Gweithredu 5-Pwynt i dargedu gwariant o fewn y flwyddyn, a manylion am y cynnydd a wnaed yn ei erbyn.<br><br>4. Manylion ynghylch y costau sy'n gysylltiedig â mynd ar drywydd taliadau'r Dreth Gyngor sy'n weddill a sbardunau a chostau gweithredu drwy'r Llys oherwydd diffyg taliad parhaus.<br><br>5. Y model senario orau, y senario waethaf a'r senario a ragwelir o arbedion effeithlonrwydd pellach i Gyllidebau Dirprwyedig Ysgolion er mwyn rhoi syniad i Aelodau o nifer yr ysgolion sy'n debygol o gwympo i sefyllfa o ddiffyg ariannol ac angen rhoi cynlluniau adfer a datblygu ar waith.<br><br>6. Mewn perthynas â gwasanaethau arlwyo a phrydau ysgol:<br>a) Syniad o ffigyrau a chanlyniadau posibl yr adolygiad ffurfiol parhaus o brisiau prydau ysgol; a<br>b) Bod yr adolygiad yn ystyried, cyn belled ag y mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch rheoli gwastraff yn ei ganiatáu, adolygiad o feintiau dognau er mwyn sicrhau bod digon o fwyd i ddisgyblion hŷn a llai o wastraff i ddisgyblion iau. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Hydref 2023 |

**91. Cynllun Gwella Rheoli Perfformiad**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u> Ar ôl ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion canlynol:<br><br>7. Bod y Pwyllgor yn ysgrifennu llythyr at Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn mynegi ei siom nad oedd modd i gynrychiolydd o Archwilio Cymru fynychu cyfarfod y Pwyllgor, oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, er mwyn helpu'r Pwyllgor i ddeall safbwynt Archwilio Cymru yn well.<br><br>8. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch ei gallu cyfyngedig i graffu ar wariant cyhoeddus ar brosiectau cyfalaf oherwydd sensitifrwydd masnachol.<br><br>Cyfeiriodd y Pwyllgor at enghreifftiau gan gynnwys y Grŵp Gwella Ysgolion, a gadeiriwyd gan yr |

| | |
|---|---|
| | Arweinydd, a’r Bwrdd Strategol Gwella Canlyniadau Gofal Cymdeithasol Plant, a gadeiriwyd gan y Prif Weithredwr, sy'n ystyried materion sensitif yn ymwneud ag Ysgolion a Gwasanaethau Plant yn y drefn honno.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai modd sefydlu Grŵp neu Fwrdd tebyg i ystyried gwybodaeth sensitif a masnachol sensitif mewn perthynas â Phrosiectau Cyfalaf/y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a bod Aelod o’r Pwyllgor Craffu’n cael ei wahodd i fod yn aelod o’r Grŵp neu Fwrdd i gynnig sicrwydd y bydd gwariant cyhoeddus ar brosiectau cyfalaf yn cael ei graffu. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Hydref 2023 |

**92. Diweddariad Rhaglen Gwaith**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Ar ôl ystyriaeth a thrafodaeth fanwl ynghylch Adroddiad y Flaenraglen Waith, a rhoi sylw i'r Swyddog Craffu yn cynghori y gallai fod yn rhy fuan i fonitro Cynlluniau Gweithredu Strategaeth y Gweithlu ym mis Rhagfyr gan mai dim ond ym mis Medi y craffwyd ar Gynllun Strategol y Gweithlu, sef:<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo ei Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar yr ychwanegiadau a'r diwygiadau a restrir isod, nododd y Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc yn Atodiad C, D ac E, a nododd y Taflenni Gweithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgorau a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiadau B, F, G a H:<br><br>a) mae cwmpas yr *Adroddiad Blynyddol Craffu* yn cynnwys diweddariad ar Gyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu newydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, a nododd y bydd hyn yn cael ei ychwanegu at Adroddiad Blynyddol 2023-24.<br>b) adroddiad gwybodaeth ynghylch *Terfynu Nawdd Cynnal Ffoaduriaid o Wcráin.*<br>c) adroddiad ar Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad y Cyngor a bod yr adroddiad *Defnyddio Safbwyntiau Defnyddwyr Gwasanaeth i Lywio Penderfyniadau* a drefnwyd ym mis Ionawr 2024 yn cynnwys y canlynol yn ei gwmpas:<br><br>• sut fydd y Cyngor yn rheoli disgwyliadau yn ystod y cyfnod economaidd heriol hwn;<br>• sut i gyfathrebu negeseuon yn glir i drigolion; a |

| | |
|---|---|
| | • sut i sicrhau dolen adborth ddigonol rhwng preswylwyr a'r Cyngor.<br><br>d) Cytunodd y Pwyllgor i adolygu a ddylid cadw'r *Adolygiad o Gynnydd Grantiau Cyfleusterau Anabl* ar ei Flaenraglen Waith ar ôl ystyried *Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 2023-24* yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2023 ac a ddylid cadw'r *Adolygiad Strategaeth Ddigidol* ar ei Flaenraglen Waith mewn cyfarfod yn y dyfodol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Hydref 2023 |

## 93. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Hydref 2023 |

Terfynwyd y cyfarfod yn 14:40